Cynllunio Eich Datganiad Personol

Y datganiad personol yw eich cyfle i ddweud wrth y Tiwtoriaid Derbyn amdanoch chi, eich sgiliau a'ch nodweddion a pham fod gennych ddiddordeb yn eich pwnc dewis.

Mae'n rhoi cyfle i chi ddangos y gwahaniaeth rhyngoch chi a myfyrwyr eraill, a gwneud i'ch hun sefyll allan ymhlith yr ymgeiswyr eraill. Mewn rhai achosion, gallech chi fod yn cystadlu yn erbyn llawer o fyfyrwyr eraill am gyrsiau poblogaidd, felly ceisiwch sicrhau eich bod chi'n creu'r argraff orau posib.

Gofynnwch y cwestiynau yma i chi'ch hun:

- Pam dylen nhw roi lle i chi ar eu cwrs?
- Beth sy'n eich gwneud chi'n wahanol i'r ymgeiswyr eraill?
- Sut gallwch ddangos eich gwybodaeth am y cwrs a'ch dealltwriaeth ohono?

Barn ein Tiwtoriaid Derbyn

Mae'r datganiad personol yn rhan hanfodol o'r broses dderbyn wrth benderfynu a gynigir lle yng Nghaerdydd i fyfyriwr.

"Gan fod llawer o fyfyrwyr yn cael cynnig lle yn y brifysgol heb gyfweliad, mae'r datganiad personol yn ffordd ddelfrydol o ddangos pa nodweddion personol a sgiliau sydd gennych i'ch helpu i sicrhau lle ar gwrs. Yn ei hanfod, mae'n gallu eich helpu i sefyll allan o blith yr holl fyfyrwyr eraill a allai fod yn disgwyl cael yr un graddau academaidd â chi. Os cewch eich gwahodd i gyfweliad, gall y datganiad personol fod yn sail ar gyfer rhai o'r cwestiynau a ofynnir ichi, felly cofiwch gadw copi i gyfeirio ato."

A oeddech yn gwybod bod gan UCAS feddalwedd i sicrhau bod pob datganiad personol wir yn 'bersonol'? Bydd unrhyw arwyddion o lên-ladrad yn dod i'r amlwg, a bydd y prifysgolion yn cael gwybod amdanynt.

Beth sydd angen i chi ei gynnwys?

Dyma'r pethau bydd tiwtoriaid derbyn eisiau eu gwybod amdanoch chi.

Beth ydych chi eisiau ei wneud?

- Pam rydych chi wedi dewis y pwnc? Ydych chi wedi astudio'r pwnc yn yr ysgol neu'r coleg?Sut mae eich astudiaethau cyfredol yn berthnasol i'r cwrs yr ydych wedi'i ddewis?
- Cyfeiriwch at gynnwys eich cwrs dewisol a nodwch beth sydd o ddiddordeb penodol i chi.
- Gwybodaeth am faes y pwnc – beth rydych chi'n ei wybod? Pam fod gennych chi ddiddordeb yn y cwrs hwn? Pa ddarllen ychwanegol a pherthnasol rydych chi wedi'i wneud?

Cofiwch ddangos brwdfrydedd/ angerdd ynghylch y pwnc!

Pa brofiadau perthnasol sydd gennych chi?

- Unrhyw brofiad gwaith? Os felly, beth ddysgoch chi? Gofalwch eich bod yn gallu siarad yn hyderus am eich profiad a'r sgiliau a gawsoch yn ei sgîl.
- Beth arall rydych chi wedi'i wneud sy'n berthnasol i'r cwrs? Mae'n bwysig i ddweud wrthym nid yn unig yr hyn yr ydych wedi ei wneud, ond yr hyn yr ydych wedi'i ddysgu, a sut y bydd y sgiliau hyn yn eich helpu ar y cwrs.

Beth arall?

- Gweithgareddau a diddordebau – rydym ni eisiau clywed beth arall rydych chi'n ei wneud yn eich amser hamdden sydd yn dangos y rhinweddau a'r sgiliau angenrheidiol.
- Bwriadau o ran blwyddyn i ffwrdd, os yn berthnasol
- Dyheadau gyrfa os ydych yn gwneud cais am gwrs galwedigaethol. Peidiwch â theimlo bod angen dyfeisio rhywbeth os nad ydych chi'n gwybod eto.

Oeddech chi'n gwybod mai dim ond un datganiad personol y gallwch chi ei lunio hyd yn oed os ydych yn gwneud cais i wahanol gyrsiau/prifysgolion?

Cofiwch wneud y canlynol

Ymchwilio – mae hyn yn dangos eich gwybodaeth a'ch ymrwymiad i'r cwrs

Bod yn gadarnhaol! – amdanoch eich hun a'r cwrs rydych chi'n gwneud cais amdano

Bod yn glir ac yn gryno – gwnewch eich pwyntiau'n berthnasol

Cynllunio'n iawn – peidiwch ag anghofio'r cyflwyniad na'r diweddglo

Gwirio eich sillafu a'ch gramadeg – gofynnwch i rywun arall ei brawfddarllen, i wneud yn siŵr nad oes camgymeriadau

Cyflwyno'r cais ar amser – dewch o hyd i ddyddiad cau eich ysgol/coleg

Peidiwch â gwneud y canlynol

Siarad am un sefydliad oni bai eich bod yn cyflwyno cais i un yn unig – bydd yn cael effaith negyddol ar eraill

Bychanu eich galluoedd – byddwch yn gadarnhaol ac yn hyderus ynghylch eich gallu eich hun a'ch dyfodol yn y brifysgol

Dweud celwyddau na chyflawni llên-ladrad – bydd UCAS yn hysbysu'r prifysgolion o hyn.

Oeddech chi'n gwybod bod pob datganiad personol yn gallu cynnwys 47 o linellau neu 4000 o nodau ar y mwyaf? Byddwch yn glir ac yn gryno felly.

Rwy'n bwriadu astudio:

1 Beth am y pwnc hwn sydd o ddiddordeb i mi?

2 Pam fy mod i eisiau astudio'r pwnc?

3 Pa brofiad perthnasol sydd gen i?

4 Beth ydw i yn ei wybod am y cwrs?

Camau at ddatganiad personol perffaith

Gwnewch eich gwaith ymchwil...

- Dewiswch eich cwrs
- Gwiriwch y gofynion mynediad
- Ewch i ddiwrnodau agored
- Cynlluniwch eich datganiad

Ewch ati i'w ysgrifennu...

- Lluniwch ddrafft
- Prawfddarllenwch y gwaith
- Gwnewch newidiadau a'i ddiweddaru
- Dangoswch ef i'ch rhieni, eich athrawon, neu'ch brodyr a'ch chwiorydd i'w wirio
- Gwnewch newidiadau terfynol a chwblhau'r drafft olaf

Anfonwch e...

- Torrwch a gludwch eich datganiad i mewn i'ch cais yn ucas.com
- Gorffennwch y cais a'i anfon at eich athro/athrawes ar gyfer geirda

Cofiwch...

- Os oes gennych gyfweliad – ailddarllenwch eich datganiad oherwydd efallai cewch eich holi am yr hyn yr ydych wedi'i ysgrifennu ynddo

Diddordebau, Profiad Gwaith a Sgiliau

Profiad gwaith/ diddordeb				
Dyma beth y gwnes i?				
Pa sgiliau y gwnes i eu dysgu?				
Sut fydd y profiad/ sgiliau yma yn fy helpu yn y Brifysgol?				

Rhestr Wirio UCAS

- Ymchwil – mae'n bwysig sicrhau eich bod wedi gwneud gwaith ymchwil trylwyr i gael hyd i'r cwrs iawn i chi
- Gwirio bod y gofynion mynediad yn unol â'ch graddau rhagfynedig
- Mynychu diwrnodau agored
- Cofrestru gydag UCAS
- Dewis eich 5 cwrs/prifysgol
- Ysgrifennu eich datganiad personol
- Dangoswch ef i'ch rhieni, eich athrawon a/neu'ch brodyr a'ch chwiorydd i'w wirio
- Sicrhau geirda gan eich ysgol/coleg
- Anfon y cais mewn da bryd!

Oeddech chi'n gwybod mai Hydref 15 yw'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau ar gyfer Deintyddiaeth, Meddygaeth a Milfeddygaeth a Rhydychen/ Caergrawnt? Cofiwch ofyn i'ch athro pryd mae dyddiad cau UCAS yn eich ysgol.

Rhagor o wybodaeth...

www.caerdydd.ac.uk/ymgeisioigaerdydd

www.ucas.com

I dderbyn newyddion misol a'r wybodaeth ddiweddaraf am astudio, cofrestrwch yn: **https://www.cardiff.ac.uk/cy/study/undergraduate/email-updates**

Sganiwch y cod QR i ddarganfod mwy